

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Mehefin, 2018 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd

PRESENNOL

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd), Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans, Owen Llywelyn

1. PERSONOL

Dim i'w cofnodi

2. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w cofnodi

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Dim i'w datgelu

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Mai, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eilwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans.

5. MATERION YN CODI

8.1 Anfonwyd llythyr at Ysgrifennydd Capel Bethlehem yn cefnogi'r cais am grant ar gyfer ail-doi'r Capel. Cafwyd cadarnhad trwy'r Cyng. Gerwyn Owen bod y cais wedi bod yn llwyddiannus gydag addewid o grant 50/50. Diolchodd i'r Cyngor am ei gefnogaeth.

10.1. Derbyniwyd ateb oddi wrth Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylchedd Cyngor Sir Ceredigion parthed Safle Gwastraff Rhydeinon. Maent yn paratoi dogfen ymgynghori ar hyn o bryd a bydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir yn fuan. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn anfon y manylion at yr aelodau pan fydd y wybodaeth wedi dod i law.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith yn ystod y mis diwethaf. Nododd fod ei gyfnod fel Cadeirydd y Cyngor Sir wedi dod i ben ddiwedd Mai a'i fod bellach wedi ail gydio yn ei waith ar y Pwyllgor Cynllunio a hynny fel Is-Gadeirydd.

7. ADRODDIAD CYFARFOD SLCC (Society of Local Council Clerks) / UN LLAIS CYMRU (16/5/2018)

Diolchodd y Clerc am y cyfle i fynychu'r cyfarfod. Soniodd yn fras am rai o'r pynciau a drafodwyd a nododd yn arbennig y sesiynau am bwysigrwydd yr archwiliad mewnol a GDPR.

8. ADRODDIAD PWYLLGOR UN LLAIS CYMRU (23/5/2018)

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Harry Williams.

- Soniodd am gyflwyniad Elen Grantham, Tai Ceredigion ac am rai o'r meini prawf sy'n rhan o'r Polisi Tai parthed Tai Cymdeithasoli a'r un benodol sy'n datgan y byddai'r rheini â chysylltiadau lleol neu sirol yn cael eu hystyried yn gyntaf ar gyfer tai ac nid oes unrhyw fwriad i newid y rheol honno i'r dyfodol.
- Cyflwynwyd Swyddog Datblygu newydd Un Llais Cymru y Canolbarth a'r Gorllewin yn y digwyddiad, sef Mel ab Owain.
- Soniodd am raglen gynhwysfawr hyfforddiant Un Llais Cymru a'r hyblygrwydd wrth drefnu cyrsiau ar gyfer grŵp pe bae angen hyfforddiant ar unrhyw agwedd ar waith y cyngor.

9. CYLLID

i. Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol, Mr. Gwyn Jones i'r aelodau. Yn dilyn argymhelliad Mr. Jones, trafodwyd asedau'r Cyngor fel ag a restrwyd yn nogfen yr yswirwyr. **Penderfynwyd** nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. **Penderfynwyd** hefyd ychwanegu'r drafodaeth am yr asedau i Agenda'r Cyfarfod Blynnyddol. Cynigiwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng Glyn Davies

ii. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol trwy gynnig Y Cyng. Owen Llywelyn a'r eilydd Y Cyng. Alan Henson.

iii. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol.** Ar gynnig Y Cyng. Glyn Davies â eiliwyd gan Y Cyng. Harry Williams, **penderyfnwyd** yn unfrydol cynnig yr un symiau â llynedd i'r canlynol:-

a) Eisteddfod Dihewyd	£125
b) Eisteddfod Felinfach	£125
c) Tenovus	£ 75
(ch) Teenage Cancer Trust	£ 75
d) Gofal Mewn Galar	£ 50
(dd) Ambiwlans Awyr Cymru I Blant	£ 30

Yn ychwanegol at y rhain trafodwyd y ceisiadau canlynol:-

(e) Cyfeillion Theatr Felinfach – dathlu'r Panto yn 50. Datganwyd diddordeb gan Y Cynghorwyr Lynford Thomas, Owen Llywelyn ac Alan Henson. **Penderfynwyd ar swm o £100.** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams

(f) CFFI Ceredigion. **Penderyfnwyd rhoi swm o £200,** Cynigiwyd gan Y Cyng, Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng, Gerwyn Owen

(ff) Samariaid. **Penderfynwyd ar y swm o £50.00.** Cynigiwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans ac eilwyd gan Y Cyng. Johnny Davies.

- iv. Codwyd cwestiwn gan y Cyng Owen Llywelyn ynglŷn ag a ddylai'r Cyngor ystyried cynnig grantiau i grwpiau cymunedol/elusennau gwahanol ac nid i'r un rhai flwyddyn ar ôl blwyddyn fel mater o drefn, Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd yn ffurfiol gan Y Cyng. Owen Llywelyn ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas a derbyniwyd yn unfrydol gan yr aelodau.
- v. Talwyd **£590.13** I Zurich Insurance
- vi. Talwyd **£150** I Wynne Jones am roi slab o dan y gadair wrth Penlangroes, Cribyn fel ag a gytunwyd yn nghyfarfod Chwefror, 2018 (10.1)
- vii. Talwyd costau teithio'r Clerc - £45.90 - i'r gynhadledd yn Llandrindod fel ag a gytunwyd yng nghyfarfod mis Mai 2018 (9.iii)
- viii. Derbyniwyd anfoneb wrth Mr. Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol am £150.
Penderfynwyd ei dalu

10. GDPR

Yn unol â rheolau newydd diogelu data a ddaeth i rym ar 25ainMai, 2018, paratowyd Polisi Preifatrwydd ar gyfer y wefan a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. **Penderfynwyd penodi Y Cyng, Hywel Ifans yn Rheolydd Data.** Cynigiwyd gan Y Cyng, Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng. Harry Williams.

11. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd copi o Arweiniad I Wasanaethau Un Llais Cymru. Bydd ar gael gan y Clerc i unrhyw sydd â diddordeb
- ii. Penodi Aelodau I Fforwm Myneiad Lleol Ceredigion. Derbyniwyd llythyr yn cynnig cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth. Cynigiwyd Y Cyng. Lynford Thomas gan Y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Glyn Davies. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn rhoi enw'r Cyng. Lynford Thomas ymlaen erbyn y dyddiad cau ar yr 2il o Orffennaf, 2018
- iii. Derbyniwyd llythyr wrth Undeb yr Annibynwyr yn diolch am y rhodd tuag at Ddathliadau Madagascar.
- iv. Hyfforddiant CLIC – system newydd cysylltu â'r Cyngor Sir. Hyfforddiant i Glercod yn bendodol ond gwahoddiad hefyd i Gynghorwyr yn i'w gynnal yn Siambr y Cyngor Aberaeron, 14eg o Fehefin am 6.30. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn mynychu ynghyd â'r Cyng. Lyn Williams.

12. CYNLLUNIO

Derbyniwyd un cais i'w ystyried:

- i. A180405. Gosod adeilad dros dros (Portakabin) i gynnwys 4 swyddfa ac ystafell gyfarfod yn SENSIENT. **Penderfynwyd** cefnogi'r cais yn unfrydol.

13. UNRHYW FATER ARALL

- i. Llofnodwyd Datganiad Derbyn Swydd Cadeirydd gan Y Cyng. Haf Hughes.
- ii. Diolchwyd i'r Clerc am drefnu bod y graffiti a ymddangosodd yn Arosfa Bws Felinfach wedi cael ei orchuddio mor gyflym ac hefyd i Keith Jones am ei ymateb cyflym i'r cais. **Penderfynwyd yn** unfrydol ar gais Y Cyng. Lynford Thomas, i'r Clerc i gysylltu â Keith Jones i ddod i beintio'r wal yn gyfan. Cysylltodd y Clerc â'r PCSO a ymwelodd â ni yn y cyfarfod diwethaf er mwyn cofnodi'r digwyddiad. Ymatebodd trwy ddweud y byddai'n cysylltu â'i chydweithwyr yn Aberaeron i weld a allent drefnu i gar yr heddlu fynd o gwmpas yr ardal bob hyn-a-hyn yn y gobaith y gallai weithredu fel rhwystr i ddigwyddiad tebyg 'to.
- iii. Nododd Y Cyng. Lyn Williams fod sedd Penlangroes mewn cyflwr ofnadwy. **Penderfynwyd** symud un o sedde Bro Silin draw i Benlangroes dros dro cyn penderfynu a ddylid gosod sedd newydd yno.
- iii. Derbyniodd Y Cyng. Lyn Williams gŵyn gan un o bentrefwyr Cribyn am gyflymder ceir sy'n teithio trwy'r pentre'. Gan nad oes fan atal cyflymder yr Heddlu wedi ei weld yng Nghribyn ers tro, **penderfynwyd** cysylltu ag Adran Y Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion i dynnu sylw at y ffaith hwn.
- iv. Tynnodd y Cyng. Lynford Thomas sylw at y ffaith bod goleuadau rhybudd Ysgol Felinfach yn fflachio ddydd a nos ers tua mis. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion i ofyn iddyn' nhw i ddatrys y sefyllfa cyn gynted â phosib.
- v. Nododd Y Cyng. Johnny Davies bod peiriannau torri gwair yn methu â theithio ar yr hewl rhwng Faenog Isaf a Pen y Daith, Dihewyd oherwydd y coed sy' wedi tyfu mas ar draws yr hewl. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion i ofyn iddyn' nhw i ddatrys y sefyllfa cyn gynted â phosib.

14. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 10fed Gorffennaf, 2018 yn Neuadd Felinfach.

